



Asesu Effaith Economaidd y Celfyddydau ar Iechyd a Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru

Ionawr 2026

Paratowyd gan:

Mr Jacob Davies, Ymchwilydd mewn Economeg Iechyd, Canolfan
Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor

Mr Greg Flynn, Ymchwilydd mewn Economeg Iechyd, CHEME, Prifysgol
Bangor

Athro Vicky Karkou, Athro Celfyddydau a Lles a Chyfarwyddwraig
Canolfan Ymchwil Celfyddydau a Lles, Prifysgol Edge Hill

Athro Rhiannon Tudor Edwards, Athro Economeg Iechyd a Chyd-
cyfarwyddwraig CHEME, Prifysgol Bangor

Cefndir a phwrrpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith economaidd y celfyddydau ar y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal â'r effeithiau ar iechyd y boblogaeth a chymdeithas yn ehangach. Dyma'r ymchwiliad cyntaf i effaith economaidd y celfyddydau ar y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar lefel genedlaethol.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ymchwilwyr yng Nghanolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) Prifysgol Bangor a Chanolfan Ymchwil Celfyddydau a Lles Prifysgol Edge Hill. Mae tîm y prosiect yn cyfuno arbenigedd byd-flaenllaw mewn ymchwil economeg iechyd, y celfyddydau a seicotherapiau celfyddyd.

Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), sy'n gorff elusennol annibynnol a sefydlwyd yn 1994. Mae CCC yn asiantaeth ddatblygu ac mae dosbarthu cyllid i gyrff celfyddydau, cymunedau ac artistiaid yng Nghymru'n rhan o'i gylch gwaith craidd. Mae'r cyllid sy'n cael ei ddosbarthu gan y CCC yn dod yn bennaf gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Crynodeb Gweithredol

- Mae tystiolaeth gynyddol yn cysylltu ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant ag iechyd corfforol a meddwl gwell drwy fywyd. Mae sefydlu gwerth ariannol y budd hwn, a'r arbedion posib i'r GIG a gofal cymdeithasol, yn faes ymchwil diweddar a chynyddol bwysig.
- Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiad gan Frontier Economics yn 2024 a fu'n trafod yr effeithiau economaidd hyn yn y DU. Mae'n cymhwyso modelau'r adroddiad hwnnw i ffigurau poblogaeth Cymru a data cyfranogi a mynychu ar gyfer cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn (2019-2024) gan CCC. Mae hefyd yn trafod heriau gofal iechyd penodol lle y gallai fod gan y celfyddydau fwyaf i'w gynnig o ran arbedion i'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Canfyddiadau allweddol

- Mae amcan-werth y budd iechyd a chynhyrchedd a gynhyrchir o bob ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i weithgareddau CCC) **yn £588m y flwyddyn o leiaf.**
- Amcangyfrifwn fod buddsoddiad y CCC mewn cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn yn cynhyrchu ROI ariannol o **£11.08 am bob £1 a fuddsoddir o ran budd iechyd, lles a chynhyrchedd.**
- O werthuso prosiectau penodol wedi eu cyllido gan y CCC sy'n targedu cyflyrau iechyd penodol:
 - Gallai rhaglen ddawnsio i wella cryfder a chydbwysedd arbed **£5m y flwyddyn mewn costau gofal iechyd drwy atal codymau ymhlith yr henoed.**
 - Os gallai rhaglenni celfyddydau gyrraedd 5% o bobl ifanc ar lwybrau iechyd meddwl y GIG, byddai'n creu **budd iechyd meddwl a lles blyneddol o £9.5m.**
 - Gallai osgoi 5% o apwyntiadau iechyd meddwl meddyg teulu ar gyfer oedolion drwy ymgysylltu â'r celfyddydau arbed **£17m y flwyddyn.**
 - Mae gan raglenni celfyddydau a allai wella iechyd a lles staff y GIG botensial i arbed hyd at **£3.5m y flwyddyn drwy leihau costau salwch staff a staff yn gadael.**

- Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod budd iechyd a lles ariannol sylweddol i'w ennill o ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru.
- Mae ein hadolygiad o'r llenyddiaeth yn awgrymu y byddai buddsoddi mewn mwy o ymchwil economaidd i'r maes hwn yn helpu i gryfhau'r canfyddiadau hyn a chynorthwyo i gymharu'r budd o fuddsoddi mewn gwahanol fathau o raglenni celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.

Datganiad cyllido

Cyllidir y prosiect a'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad hwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Grant rhif 5020-2010060-AW.

Cynnwys

Cefndir a phwrpas yr adroddiad	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
Datganiad cyllido	4
Cynnwys.....	5
Y berthynas rhwng y celfyddydau ac iechyd mewn polisi ac ymchwil	6
Pwrpas yr adroddiad.....	7
Buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru ac iechyd a lles	8
Nodau a dulliau'r astudiaeth	9
Pecyn gwaith 1: gwerthuso budd yr holl ymgysylltu â'r celfyddydau i boblogaeth Cymru.....	10
Pecyn gwaith 2: budd o fuddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru o ran iechyd, lles a chynhyrchedd.....	16
Pecyn gwaith 3: rhaglenni celfyddydau a allai arbed costau ac yn targedu heriau iechyd penodol	20
Astudiaeth achos 1: Atal Codymau	21
Astudiaeth achos 2: Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc	22
Astudiaeth achos 3: Iechyd Meddwl Oedolion mewn Gofal Sylfaenol	23
Astudiaeth achos 4: Gweithlu GIG Cymru	24
Trafodaeth	26
Argymhellion ar gyfer polisi ac ymchwil i'r dyfodol	27
Casgliad	28
Cyfeiriadau	29
Atodiad Technegol.....	33
Pecyn Gwaith 1.....	33
Pecyn Gwaith 2:.....	35
Pecyn gwaith 3	37
Adolygiad atodol o'r llenyddiaeth.....	39

Y berthynas rhwng y celfyddydau ac iechyd mewn polisi ac ymchwil

Mae Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant: asesiad effaith integredig 2025 Llywodraeth Cymru yn ystyried y cysylltiad cryf rhwng ymgysylltiad a chyfranogiad unigolion a chymunedau mewn diwylliant a'r celfyddydau, a chanlyniadau iechyd a lles gwell¹. Mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Llywodraeth Cymru 2025-2035 hefyd yn ystyried sut y gallai asedau cymunedol (gan gynnwys canolfannau celfyddydau a diwylliannol) gael eu defnyddio i hybu lles ac iechyd meddwl da ar draws Cymru².

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015³, sy'n unigryw i Gymru, rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni saith nod llesiant. Mae *Cymru Iachach a Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu*³

Y tu allan i Gymru, mae tystiolaeth gynyddol bod gweithgareddau celfyddydau o fudd i iechyd a lles eu cyfranogwyr⁴⁻⁹ ac effeithiau economaidd defnyddio llai o adnoddau gofal iechyd (HCRU) ynghyd â'r budd ehangach i gymdeithas o ganlyniad, fel dychwelyd i waith cyflogedig a chydlyniant cymdeithasol¹⁰. Mae enghreifftiau pellach ar draws y DU yn awgrymu bod y celfyddydau'n gallu cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy ddylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd¹¹.

Pwrrpas yr adroddiad

Hyd yma ni wnaed unrhyw asesiad o effaith economaidd budd iechyd a lles y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn felly wedi ceisio ychwanegu gwerth at y maes hwn drwy ddefnyddio modelau safadwy a grëwyd yn barod, data demograffig ar gyfer Cymru, a data cyfranogi a mynychu Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) er mwyn amcangyfrif yr effeithiau economaidd ar draws Cymru.

Mae ein dadansoddiad yn adeiladu ar y dulliau arloesol a gyflwynwyd yn adroddiad Frontier Economics (2024): *Cyfalaf diwylliant a threftadaeth: Gwerth ariannol effaith diwylliant a threftadaeth ar iechyd a lles*¹². Crëwyd y modelau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw'n defnyddio tystiolaeth o fudd iechyd a lles gwahanol fathau o ymgysylltiad â'r celfyddydau gan wahanol grwpiau poblogaeth, gyda dim ond y dystiolaeth gryfaf yn cael ei defnyddio i gyfrifo effaith economaidd ymgysylltu â'r celfyddydau drwy fywyd. Ar gyfer yr adroddiad hwn, defnyddiwyd tystiolaeth a modelau Frontier Economics (2024) mewn dwy ffordd: Yn gyntaf, cafodd holl fodelau Frontier Economics (2024) eu hail-amcangyfrif ar gyfer ffigurau poblogaeth Cymru er mwyn amcangyfrif effeithiau ariannol pob ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru. Yn ail, fe wnaethom gymhwyso'r modelau mwyaf perthnasol (a'u budd ariannol fesul person) i ddata cyfranogi CCC er mwyn amcangyfrif yr effeithiau ariannol a gynhyrchwyd drwy ymgysylltu'n benodol â chelfyddydau CCC.

I ategu'r amcan-ffigurau hyn, cyflwynwyd astudiaethau achos a godwyd o bortffolio cyllido CCC ac a welodd newid yn y defnydd o adnoddau GIG a gofal cymdeithasol, yn iechyd a lles y cyfranogwyr ac mewn canlyniadau cymdeithasol ehangach. Mae'r astudiaethau achos hyn yn adlewyrchu rhaglenni sy'n targedu rhai o'r bygythiadau mwyaf perthnasol i iechyd a lles poblogaeth, GIG a systemau gofal Cymru, ac yn dangos y budd ariannol posib o fuddsoddi mwy yn y meysydd hyn.

Fel y noda Atodiad Technegol yr adroddiad hwn ac Adran 4.2.5 Frontier Economics (2024), i raddau helaeth mae modelau Frontier Economics (2024) yn rhoi amcan rhy isel o effeithiau'r celfyddydau ar y GIG a gofal cymdeithasol. Hefyd, o gofio ein bod ond yn cyflwyno llond llaw o astudiaethau achos, **mae'n debyg bod canlyniadau'r**

adroddiad hwn yn tangynrychioli gwir effaith economaidd y budd iechyd a lles o gyfranogi yn a mynychu'r celfyddydau yng Nghymru.

Buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru ac iechyd a lles

Yn unol â'i genhadaeth i ehangu ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru¹³, mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ar hyn o bryd yn buddsoddi mewn 81 o gyrff celfyddydau ar sail aml-flwyddyn (cyrff sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn), gyda'r buddsoddiad yn cyfrannu at gostau gweithredu craidd. Ar hyn o bryd mae'r buddsoddiad hwn tua £29.3m y flwyddyn. Mae CCC hefyd yn cyllido prosiectau unigol fel cynrychiadau, sioeau teithiol, digwyddiadau a rhaglenni i wella ymgysylltiad â'r celfyddydau, gan weithio'n aml mewn partneriaeth â sectorau eraill fel addysg ac iechyd. Awgryma'r dystiolaeth bresennol fod gan y rhaglenni hyn i gyd botensial i gefnogi'r GIG a'i weithlu a lleihau'r galw ar adnoddau'r GIG drwy gadw pobl yn iach yn eu cymunedau¹⁴.

Mae gan brosiectau celfyddydau neilltuol mewn lleoliadau iechyd (a elwir weithiau'n rhaglenni 'celfyddydau ac iechyd' neu 'iechyd creadigol') botensial ychwanegol i gynorthwyo triniaethau, adferiad a rheolaeth o gleifion. Yn dilyn astudiaeth fapio o'i weithgareddau yn 2018¹⁵, penderfynodd CCC buddsoddi mewn nifer o raglenni strategol yn y maes, gan gynnwys cyd-gyllido swyddi cydlynwyr celfyddydau ac iechyd ym Myrddau Iechyd Cymru, cefnogi'r rhaglen arloesi ac ymchwil 'Iechyd, Celfyddydau, Ymchwil, Pobl' (HARP) a chreu ffrwd gyllido neilltuol ar gyfer prosiectau celfyddydau ac iechyd yng Nghymru.

Mae'r rhaglenni strategol hyn yn rhan graidd o ddarparu cenhadaeth CCC yn ôl ei Strategaeth 2024-2034: *creu amgylchedd lle y gall gwybodaeth am, dealltwriaeth o, ac ymarfer y celfyddydau ffynnu a lle y gall pawb yng Nghymru ymgysylltu â'r celfyddydau*¹⁶.

Nodau a dulliau'r astudiaeth

Nod yr astudiaeth yw sefydlu beth yw gwerth ariannol y budd iechyd a lles, cynhyrchedd a'r arbedion cost posib i'r GIG a systemau gofal cymdeithasol a gynhyrchir gan raglenni celfyddydau yng Nghymru, gan gynnwys rhai wedi eu cyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Cafodd hyn ei gyflawni drwy dri phecyn gwaith:

1. Cymhwyso data poblogaeth Cymru i holl fodelau economaidd Frontier Economics (2024) er mwyn amcangyfrif gwerth ariannol arbedion cost GIG a gofal cymdeithasol, iechyd a lles unigolion a'r budd cynhyrchedd a ddaw o bob ymgysylltiad â'r celfyddydau drwy Gymru.
2. Cymhwyso modelau priodol Frontier Economics i ffigurau cyfranogi a mynychu blynyddol cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan CCC er mwyn amcangyfrif y budd ariannol o fuddsoddiad CCC drwy'r buddiannau iechyd, lles a chynhyrchedd a gynhyrchir ar draws y cyrff hyn.
3. Cyflwyno enghreifftiau o raglenni celfyddydau sy'n derbyn cyllid gan CCC ac yn targedu heriau iechyd penodol yng Nghymru ac amcangyfrif gwerth ariannol eu heffaith, o dystiolaeth, ar ganlyniadau i gyfranogwyr yn y rhaglenni hynny. Mae hyn yn gadael i ni ddangos, o safbwynt ariannol, potensial y rhaglenni hyn i fynd i'r afael â heriau iechyd a lles allweddol ar draws Cymru ac yn y systemau iechyd a gofal yng Nghymru.

Pecyn gwaith 1: gwerthuso budd yr holl ymgysylltu â'r celfyddydau i boblogaeth Cymru

Crynodeb

Mae gwerth ariannol y budd iechyd a chynhyrchedd a ddaw o bob ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru yn £588m y flwyddyn o leiaf.

Er mwyn amcangyfrif gwerth ariannol yr holl ymgysylltu â'r celfyddydau i boblogaeth Cymru, cafodd fodelau Frontier Economics (2024) eu hail-amcangyfrif yn defnyddio data poblogaeth Cymru er mwyn asesu ffigurau ymgysylltu'r adroddiad ar sail pro-rata. Oherwydd mai data poblogaeth a ddefnyddiwyd, mae'r dadansoddiad hwn yn cynrychioli'r holl ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau y tu allan i bortffolio CCC.

Defnyddiwyd modelau Frontier Economics o adroddiad 2024 oherwydd ei fod yn rhoi'r dadansoddiad mwyaf manwl o effaith economaidd y celfyddydau yn ôl ein hadolygiad o lenyddiaeth gyhoeddedig a 'llwyd'. Y gwerthoedd a'r rhagdybiaethau ariannol cadarn a gasglwyd o'u dadansoddiadau a gynigiodd y dull gorau o greu amcangyfrifon ar gyfer Cymru.

Roedd Frontier Economics wedi dylunio pob un o'u modelau yn gyntaf oll drwy chwilio'r llenyddiaeth am dystiolaeth o gysylltiad rhwng diwylliant, treftadaeth ac iechyd a lles gwahanol grwpiau poblogaeth (yn ôl oed, ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol, pa mor aml, ac wrth fyw gyda chyflwr iechyd penodol). O'r dystiolaeth hon, gallai'r awduron yna fesur newidiadau ansawdd bywyd o ymgysylltu'n ddiwylliannol drwy newidiadau ym mlynnyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY). Mae blynnyddoedd QALY yn fesur cyffredinol o faint ac ansawdd bywyd wedi'i fyw, gydag un QALY yn flwyddyn o iechyd perffaith. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r modelau hyn flynyddoedd QALY i fesur effaith, o gofio y gellir rhoi gwerth ariannol iddynt, yn defnyddio gwerthoedd Trysorlys EF¹⁷ (£70,000 i bob QALY) a gwerthoedd pen isaf y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)¹⁸

(£20,000 i bob QALY). Defnyddiwyd blynyddoedd lles (WELLBY) mewn modelau os nad oedd tystiolaeth o adrodd ansawdd bywyd ond, yn hytrach, lle'r oedd effeithiau iechyd meddwl a hunan-werth wedi eu hadrodd. Roedd gwerthoedd WELLBY yn dilyn gwerthusiadau a adroddwyd yn Fujiwara et al., 2021¹⁹.

Y brif ragdybiaeth a wnaed wrth gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn yw bod gan bobl Cymru'r un cyfle i ymgysylltu â'r celfyddydau â'r dystiolaeth traws-DU a ddefnyddiwyd i greu amcangyfrifon model Frontier Economics (2024). Rydym yn cydnabod y bydd y cyfle i ymgysylltu â'r celfyddydau ar draws gwledydd y DU yn amrywio.

Drwy wneud hyn, amcangyfrifwn fod yr holl ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru'n cynhyrchu:

- Budd **iechyd cyffredinol** traws-gymdeithas blynyddol o **£506m** o leiaf (Tabl 1).
- Budd **cynhyrchedd** traws-gymdeithas blynyddol o **£81m** o leiaf (Tabl 1).

Amcangyfrifwn hefyd fod yr holl ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru'n cynhyrchu:

- Arbedion cost **GIG a gofal cymdeithasol blynyddol o £26m o leiaf** (Tabl 2).

Er mwyn creu'r ffigurau pennawd uchod ar gyfer iechyd cyffredinol a chynhyrchedd, defnyddiwyd Model 1 Frontier Economics (cyfranogiad cyffredinol ac iechyd cyffredinol mewn oedolion 30-49 oed). Defnyddiwyd y dull hwn oherwydd mai dyma'r ffigur amcangyfrif mwyaf o'r holl fodelau; mae'r dull hwn yn gyson â dull Frontier Economics (2024). Nid yw'r amcangyfrifon a gynhyrchir gan wahanol fodelau Frontier yn rhai 'haen-ar-haen', hynny yw ni allwn gynhyrchu un cyfanswm gwerth o amcangyfrifon yr holl fodelau. Ni ellir ychwaith cymharu amcangyfrifon holl fodelau Frontier Economics yn uniongyrchol o gofio'r gwahanol fethodolegau a data a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon y modelau unigol yn nodi'r budd dangosol i wahanol grwpiau poblogaeth a mathau o ymgysylltiad â'r celfyddydau. Mae amcangyfrifon Model 1 a gyflwynir fel ffigurau pennawd felly'n rhoi syniad mor gywir â phosib o gyfanswm effaith economaidd yr holl ymgysylltu blynyddol â'r

celfyddydau yng Nghymru ar iechyd, lles a chynhyrchedd ond yn **tangynrychioli'r gwir effeithiau economaidd yn sylweddol**. I ddeall mwy pam na ellir adio amcangyfrifon y modelau, dylid darllen Adran 4.2.5 Frontier Economics (2024).

Defnyddiodd ein dadansoddiad ni'r un rhagdybiaethau ar sail tystiolaeth a gyflwynir ym modelau Frontier Economics ond gan eu cymhwyso i wahanol ddata poblogaeth ar gyfer Cymru a gafwyd o amcangyfrifon Poblogaeth StatsCymru yn ôl awdurdod lleol ac oed²⁰.

Rhoddir disgrifiad byr o'r gwahanol grwpiau poblogaeth yn y modelau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad Frontier Economics (2024) yng ngholofn gyntaf Tabl 1. Mae cynnwys grwpiau poblogaeth ar wahanol gyfnodau drwy fywyd²¹ yn ystyried y gwahanol fudd a allai gael ei ennill o ymgysylltu â'r celfyddydau ar wahanol adegau mewn bywyd. Yn eu tro, gallai'r gwahanol fuddiannau hyn gynhyrchu gwahanol effeithiau economaidd i'r system iechyd ac economi ehangach Cymru. Mae ystyried heriau iechyd sy'n trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall yn dilyn canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015³. Am fwy o wybodaeth am ragdybiaethau a wneir, dylid darllen Atodiad B.4 Frontier Economics (2024).

Mae Tabl 1 yn cyflwyno'r buddiannau iechyd, lles a chynhyrchedd blynyddol i unigolion ar gyfer pob model. Cyflwynir gwahanol niferoedd poblogaeth ar gyfer pob model, wedi eu lluosio gan y budd ariannol i unigolion er mwyn cynhyrchu budd ariannol blynyddol traws-gymdeithas.

Tabl 1: Budd iechyd, lles a chynhyrchedd ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru,
yn ôl grŵp oed a math o ymgysylltu

Modelau grŵp oed a mynychu'r celfyddydau <i>Frontier Economics (2024)</i>	Budd iechyd a lles blynyddol i unigolion fesul person (£)	Budd cynhyrchedd blynyddol fesul person (£)	Grwpiau poblogaeth y modelau (yn defnyddio data poblogaeth Cymru)	Cyfanswm gwerth y budd iechyd a lles traws- gymdeithas (£)	Cyfanswm gwerth y budd cynhyrchedd traws- gymdeithas (£)	Cyfanswm gwerth y budd iechyd, lles a chynhyrchedd traws- gymdeithas (£)
1) Cyfranogiad cyffredinol ac iechyd cyffredinol mewn oedolion 30- 49	£992	£138	592,910	£506,345,032	£81,821,563	£588,166,595
2a) Mynychu cyffredinol ac iechyd meddwl mewn oedolion (30- 49)	£649	£91	214,952	£120,158,291	£19,560,652	£139,503,991
2b) Cyfranogiad cyffredinol ac iechyd meddwl mewn oedolion (30- 49)	£386	£63	668,740	£258,133,733	£42,130,635	£299,595,628
3) Gweithgareddau allgyrsiol ac ymddygiad allanol mewn plant (10-14)	£122	-	106,775	£13,026,581	-	£13,026,581
4a) Celfyddyd a hunan-werth mewn plant (10-14)	£134	-	15,735	£2,108,530	-	£2,108,530
4b) Cerddoriaeth a hunan-werth mewn plant (10-14)	£68	-	42,710	£2,904,287	-	£2,904,287
5a) Gweithgareddau celfyddyd trefnedig wythnosol ac iechyd meddwl mewn oedolion ifanc (18- 29)	£662	£86	54,537	£36,103,282	£4,690,154	£40,793,437
5b) Gweithgareddau	£1,098	£142	29,747	£32,662,513	£4,224,114	£36,886,627

celfyddyd trefnedig dyddiol ac iechyd meddwl mewn oedolion ifanc (18- 29)						
6) Gweithgareddau amgueddfa celfyddydol ac iechyd cyffredinol mewn oedolion hŷn	£1,164	£333	768	£893,388	£112,057	£1,005,445
7) Corau ac iechyd cyffredinol mewn oedolion hŷn (65+)	£481	£71	6,822	£3,281,555	£484,388	£3,765,943
8) Ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol ac iselder mewn oedolion hŷn (50+)	£232	£56	497,427	£115,403,064	£27,855,912	£143,258,976
9) Ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol a dementia mewn oedolion hŷn (50+)	£66	£7	259,697	£17,139,981	£1,817,877	£18,957,858
10) Amgueddfeydd a dementia mewn oedolion hŷn (50+)	£160	£21	139,280	£22,284,730	£2,924,871	£25,209,600

Mae Tabl 2 yn cyflwyno amcangyfrifon ariannol o arbedion GIG a gofal cymdeithasol ar sail Modelau 8, 9 a 10 Frontier Economics (2024). Mae ymchwil i'r cysylltiadau achosol rhwng mynychu neu ymgysylltu â'r celfyddydau a defnydd o adnoddau gofal iechyd (HCRU) wedi bod yn eithaf prin hyd yma, felly noda Frontier Economics mai dim ond amcangyfrifon 'brig i lawr', lle'r oedd tystiolaeth gadarn o arbedion cost ar gael, oedd yn bosib. Y rhain yw oedolion hŷn gydag iselder a dementia'n ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol, ac oedolion hŷn gyda dementia'n mynychu amgueddfeydd. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhagdybio bod gan bobl sy'n byw yng Nghymru'r un mynediad at wasanaethau GIG a gofal cymdeithasol â rhai'n byw mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym ni'n cydnabod y bydd y mynediad at y gwasanaethau hyn yn amrywio ar draws y DU.

Fel gyda'r ffigurau pennawd ar gyfer iechyd, lles a chynhyrchedd, cyflwynwyd yr amcangyfrif ariannol mwyaf o'r modelau yn Nhabl 2 oherwydd cyfyngiadau gyda chymharu ac adio modelau. Mae amcangyfrifon Model 10 a gyflwynir fel ffigurau pennawd felly'n rhoi syniad mor gywir â phosib o gyfanswm effaith economaidd yr holl ymgysylltu blynyddol â'r celfyddydau yng Nghymru ar greu arbedion cost GIG a gofal cymdeithasol, ond yn **tangynrychioli'r gwir effeithiau economaidd yn sylweddol**.

Tabl 2: Arbedion cost GIG a gofal cymdeithasol o ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru (oedolion hŷn ac ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol yn unig)

Grŵp oed a mynychu'r celfyddydau (o adroddiad Frontier Economics)	Arbedion cost GIG blynyddol fesul person (£)	Arbedion cost gofal cymdeithasol blynyddol fesul person (£)	Cyfranogiad poblogaeth Cymru yn y grŵp oed hwn	Cyfanswm arbedion cost iechyd a gofal
8) Ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol ac iselder mewn oedolion hŷn	£26*	-	497,427	£12,933,102
9) Ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol a dementia mewn oedolion hŷn (50+)	£11	£64	259,697	£19,477,252
10) Amgueddfeydd a dementia mewn oedolion hŷn (50+)	£27	£162	139,280	£26,323,837

**Adroddir £26 ym Model 8 fel arbedion GIG a gofal cymdeithasol yn adroddiad Frontier Economics (2024), nid yw arbedion GIG neu ofal cymdeithasol wedi eu gwahanu ar gyfer amcangyfrifon y model hwn*

Pecyn gwaith 2: budd o fuddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru o ran iechyd, lles a chynhyrchedd

Crynodeb

Mae'r budd ariannol blynyddol cyfartalog o fuddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru mewn cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn yn £11.08 mewn budd iechyd a chynhyrchedd am bob £1 a fuddsoddir.

Er mwyn amcangyfrif gwerth ariannol blynyddol cyfartalog y budd iechyd, lles a chynhyrchedd ar draws cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), defnyddiwyd y budd ariannol blynyddol fesul person a gyflwynwyd yn y modelau mwyaf cymharol gan Frontier Economics (2024) i gyfartaleddu ffigurau cyfranogi a mynychu blynyddol a adroddir i CCC gan gyrrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn rhwng 2019-2024.

Cafodd y ffigurau mynychu a chyfranogi ar gyfer cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan CCC rhwng 2019/20 a 2024/25 eu cyflenwi gan CCC. **Mae cyfranogi** yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at unigolion yn ymgysylltu a chyfranogi'n weithredol mewn prosiectau celfyddydau / diwylliannol. **Mae mynychu** yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at bobl yn ymweld / mynychu arddangosfeydd celfyddydol neu ddigwyddiadau diwylliannol. Gwahaniaethir rhwng y ddau beth oherwydd bod amcangyfrifon ariannol o effeithiau'n amrywio yn ôl a yw rhywun yn ymgysylltu â neu'n mynychu gweithgareddau celfyddydau/diwylliannol.

Cafodd y ffigurau cyfranogi a adroddwyd i CCC gan y cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn ganddo eu gwahanu yn ôl Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc neu Gyfranogiad Cyffredinol. Ni chafodd y ffigurau mynychu eu gwahanu. Cafodd y cyfnod rhwng 2019/20 a 2024/25 ei ddewis oherwydd ei fod yn rhoi'r amcangyfrifon diweddaraf pan wnaed yr astudiaeth hon. Mae'n werth nodi bod y cyfnod hwn yn cynnwys pandemig COVID-19 a'r cyfnod o ddod allan ohono felly byddem yn disgwyl

i ffigurau cyfranogi a mynychu fod yn is dros y cyfnod hwn nag yn y blynyddoedd heb COVID. Mae'r ffigur hwn hefyd yn eithrio mynychu neu gyfranogi ym mhrosiectau CCC a gyllidwyd ar wahân drwy grantiau Loteri Genedlaethol CCC oherwydd nid yw'r data hwn yn cael ei adrodd ar y prosiectau hynny yn yr un ffordd, er y credir iddynt fod yn sylweddol.

Cafodd y ffigurau mynychu a chyfranogi cyfartalog blynyddol hyn eu lluosu â'r budd ariannol fesul person ym Modelau 2a (oedolion 30-49 yn mynychu'r celfyddydau diwylliannol) a 2b (cyfranogiad oedolion 30-49 yn y celfyddydau diwylliannol) ar gyfer oedolion. Roedd yr amcangyfrifon hyn o oedolion yn mynychu a chyfranogi'n cynnwys budd iechyd a chynhyrchedd. Ar gyfer ffigurau cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, defnyddiwyd ffigurau budd ariannol cyfartalog o Fodelau 4a a 4b (cyfranogiad plant 10-14 oed yn y celfyddydau yn y naill fodel a cherddoriaeth yn y llall). Budd lles yn unig oedd yr amcangyfrifon Plant a Phobl Ifanc sy'n debygol felly o fod yn **tangynrychioli'r gwir fanteision**. Wele'r Atodiad Technegol am fwy o fanylion am fewnbwn y modelau.

Drwy wneud hyn amcangyfrifwn fod cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan CCC wedi creu **budd ariannol blynyddol cyfartalog o £316m o leiaf** (Tabl 3).

Tabl 3: Cyfanswm y budd ariannol traws-gymdeithas blynyddol o gyfranogi a mynychu gweithgareddau celfyddydau a diwylliannol gan gyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn

Math o ymgysylltu	Ymgysylltu blynyddol cyfartalog: Cyrff yn derbyn cyllid aml-flwyddyn gan CCC	Budd cynhyrchedd blynyddol fesul person	Budd iechyd a lles blynyddol fesul person	Cyfanswm y budd blynyddol fesul person	Cyfanswm y budd traws-gymdeithas
Cyfranogi (oedolion)	270,926	£63	£386	£448	£121,374,848
Cyfranogi (Plant a Phobl Ifanc)	430,535	-	£101	£101	£43,485,045
Mynychu (oedolion)	233,348	£91	£559	£649	£151,442,852
Budd cynhyrchedd traws-gymdeithas blynyddol a gynhyrchwyd (cyfranogi a mynychu)					£37,798,732
Budd iechyd a lles traws-gymdeithas blynyddol a gynhyrchwyd (cyfranogi a mynychu)					£278,504,013
Cyfanswm y budd traws-gymdeithas blynyddol a gynhyrchwyd (cyfranogi a mynychu)					£316,302,745

Roedd buddsoddiad cyfartalog blynyddol CCC mewn cyrff yn derbyn cyllid aml-flwyddyn dros y cyfnod hwn yn £28,571,699, gan greu amcan-fudd blynyddol o fuddsoddiad (ROI) o 1008%: £11.08 wedi'i gynhyrchu mewn budd iechyd, lles a chynhyrchedd am bob £1 a fuddsoddwyd gan CCC.

Roedd modelau 2a a 2b yn dibynnu ar dystiolaeth o'r un astudiaeth, yn defnyddio'r un mesur canlyniad, ac yn cael eu gwerthuso yn yr un ffordd. Gyda phob is-fodel yn amcangyfrif effaith gwahanol fath o ymgysylltu (2a, mynychu a 2b, cyfranogi). Amcangyfrifwyd y ffigurau Plant a Phobl Ifanc yn wahanol, yn defnyddio mesurau canlyniad a dulliau gwerthuso gwahanol, ond wedi eu cyfuno i gynhyrchu amcan-ffigur pennawd holistig er mwyn dangos yr ymgysylltu sylweddol gan blant a phobl ifanc ar draws gweithgareddau celfyddydau a diwylliannol y cyrff a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan CCC.

Nid yw pob model yn y pecyn gwaith hwn yn ystyried yr effaith ar y defnydd o adnoddau gofal iechyd (HCRU) ac felly'n debygol o dangynrychioli'r gwir effeithiau.

Mae'r ffigurau ROI felly'n fwy dangosol na chynrychiadol ond rydym yn ffyddiog y bydd y gwir fudd yn fwy o gofio nad yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys gweithgareddau eraill a gyllidir gan CCC drwy ei bortffolio loteri a hefyd y diffyg HCRU yn y modelau Frontier Economics a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mewn adolygiad systematig gan Masters et al (2022) o'r budd o fuddsoddiad ar gyfer ymyriadau iechyd cyhoeddus, roedd y budd ROI cymedrig o ymyriadau iechyd cyhoeddus lleol yn £4.10 am bob £1 a fuddsoddwyd²². Yn defnyddio enghreifftiau o'r adolygiad hwnnw, roedd y budd cyfartalog blynyddol o fuddsoddiad yng ngweithgareddau celfyddydau CCC yn gymharol i fonitro pwysedd gwaed yn y cartref er mwyn cael diagnosis a thrin pwysedd gwaed uchel mewn 16,000 o gyfranogwyr a rhaglen addysg gynnar ddwys i deuluoedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Dylid nodi nad yw'r rhain yn gymariaethau uniongyrchol oherwydd dulliau cyfrifo gwahanol. Er hynny maen nhw'n cynnig enghreifftiau dangosol a chyddestun ar gyfer y budd o fuddsoddiad CCC.

Er ei bod yn bwysig nodi bod y cyrff hyn yn derbyn a chodi buddsoddiad o sawl ffynhonnell heblaw Cyngor Celfyddydau Cymru, mae buddsoddiad CCC yng nghostau 'craidd' y cyrff hyn yn cyfrannu'n sylweddol at fod yn gallu gweithredu ac annog pobl i ymgysylltu ar y raddfa hon.

Pecyn gwaith 3: rhaglenni celfyddydau a allai arbed costau ac yn targedu heriau iechyd penodol

Crynodeb

Mae gwerthuso prosiectau penodol a dderbyniodd gyllid aml-flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ac sy'n targedu cyflyrau iechyd penodol yn dangos bod gan y rhaglenni hyn botensial mawr i greu arbedion sylweddol o ran costau GIG a gofal cymdeithasol, fel a ganlyn:

1. Gallai rhaglen ddawnsio genedlaethol i wella cryfder a chydbwysedd arbed £5m y flwyddyn i GIG Cymru drwy atal codymau ymhlith yr henoed.
2. Pe bai 5% o'r bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yng Nghymru'n ymgysylltu â rhaglenni celfyddydau arbenigol fel rhan o'u triniaeth, gallai gynhyrchu budd iechyd meddwl a lles o £9.5m.
3. Gallai ymyriadau celfyddydau i bobl gydag iechyd meddwl 'ysgafn i gymedrol' olygu bod angen hyd at 3.1m yn llai'r flwyddyn o apwyntiadau iechyd meddwl oedolion gyda meddyg teulu. Byddai osgoi dim ond 5% o'r apwyntiadau iechyd meddwl oedolion hyn gyda meddyg teulu, drwy ymgysylltu â rhaglenni celfyddydau, yn creu arbedion o £17m y flwyddyn.
4. Mae gan raglenni celfyddydau sy'n cefnogi iechyd a lles staff y GIG botensial i arbed hyd at £3.5m y flwyddyn drwy leihau costau salwch staff a staff yn gadael.

Yn yr astudiaethau achos enghreifftiol hyn, defnyddiwyd data gwerthuso cyhoeddedig ar fudd iechyd a lles prosiectau unigol a'u budd ariannol (neu y gellid rhoi gwerth ariannol iddo), cyn cymhwyso'r dystiolaeth i'r boblogaeth.

Wrth ddewis astudiaethau achos, sgriniwyd adroddiadau gwerthuso prosiectau celfyddydau ac iechyd a dderbyniodd gyllid gan CCC a'r dystiolaeth gyhoeddedig ehangach i adnabod rhai'n cynnwys tystiolaeth o effaith ar ganlyniadau cyfranogwyr. Defnyddiwyd y rhain i ddangos, o safbwynt ariannol, potensial yr ymyriadau / prosiectau hyn yn yr ymdrech i i fynd i'r afael â heriau iechyd a lles allweddol ar draws Cymru ac yn systemau iechyd a gofal Cymru. Roedd y canlyniadau o ddiddordeb yn yr astudiaethau achos enghreifftiol yn cynnwys:

- **Defnydd o adnoddau GIG a gofal cymdeithasol** (gan gynnwys newid yn nifer y cysylltiadau â gofal sylfaenol ac eilaidd),
- **Iechyd a lles y cyfranogwyr** (gan gynnwys ansawdd bywyd, lles a hyder cysylltiedig ag iechyd),
- **Effeithiau cymdeithasol ehangach** (cyflogaeth, cynhyrchedd, absenoldeb).

Mae'r canlyniadau hyn yn fwy dangosol na chynrychiadol ond yn dangos y budd economaidd posib o dargedu mwy o weithgareddau celfyddydau ac iechyd ar draws Cymru.

Astudiaeth achos 1: Atal Codymau

Ymhlith yr henoed, mae cael codwm ac anafiadau o ganlyniad yn risg iechyd sylweddol. Bydd 30% o bobl dros 65 oed yn cael codwm o leiaf unwaith y flwyddyn, sy'n codi i 50% o bobl dros 80 oed²³. Bydd dros 130,000 o bobl hŷn yn cael codwm o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghymru²⁴. Mae'r lefelau uchel o gael codwm a brifo / cael anafiadau o ganlyniad, yn costio £2.3bn y flwyddyn i'r GIG²⁵. Mae bron i hanner hyn (£1.1bn) o ganlyniad i dorri clun²³.

Un prosiect y mae CCC wedi'i gefnogi yw rhaglen ddawns atal codwm *Iechyd Da-wns!/Dance to Health* i bobl dros 60 oed, a ddyfeisiwyd gan yr elusen Aesop Arts a Society Ltd. Ar hyn o bryd mae *Iechyd Da-wns!/Dance* yn rhedeg mewn pedwar lleoliad yn Abertawe. Roedd Gwerthusiad Prifysgol Sheffield Hallam (2020) o raglen *Dance to Health* y DU yn awgrymu bod gan y sesiynau botensial i arbed dros £79m y flwyddyn i NHS England drwy leihau'r costau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â chodymau²⁶.

Wrth gymhwyso'r effeithiau hyn *pro rata* i boblogaeth 65+ Cymru (gan dybio bod lefel y codymau ymhlith pobl 65+ oed yr un fath yng Nghymru ag yn Lloegr), gallai atal codymau drwy **raglen ddawns genedlaethol fel Dance to Health arbed £4,998,257** y flwyddyn i GIG Cymru.

Astudiaeth achos 2: Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Yn 2023 roedd gan 1 o bob 5 o blant a phobl ifanc 8-25 oed anhwylder iechyd meddwl tebygol²⁷. Awgryma'r llenyddiaeth fod cyfle i'r celfyddydau chwarae rôl mewn cefnogi pobl ifanc, ar lefel unigolyn, gyda'u hiechyd meddwl, ac o ganlyniad drwy leihau'r galw ar wasanaethau iechyd meddwl y GIG¹⁰.

Drwy weithio gyda'r Byrddau Iechyd yng Nghymru, mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Baring Foundation wedi buddsoddi'n strategol yn y maes hwn drwy eu rhaglen 'Celfyddydau a Meddyliau' gan gyllido gweithgareddau celfyddydau i bobl ifanc yng Ngwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) y GIG ar draws Cymru. Fel rhan o hyn, mae prosiect Celfyddydau a Meddyliau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, *Hwb Celfyddydol*, yn cynnig gweithgareddau creadigol i blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl 'ysgafn i gymedrol' ac sy'n hysbys i'r tîm CAMHS.

Yn y gwerthusiadau cynnar o'r rhaglen *Hwb Celfyddydol*²⁸, cafodd newidiadau yn iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc eu mesur drwy ofyn iddynt gwblhau Graddfa Lles Meddwl Byr Warwick Edinburgh, SWEMWBS, cyn ac ar ôl y rhaglen, ac yna cymharu'r canlyniadau. Yn defnyddio gwerthusiadau SWEMWBS a gyhoeddwyd (fel yn Granger et al, 2025)²⁹ a'u cymhwyso i'r newidiadau cymedrig mewn lles wedi eu hadrodd gan blant a phobl ifanc yn y ddau gohort cyntaf, amcangyfrifwn fod budd iechyd meddwl a lles *Hwb Celfyddydol* yn £3,621 y flwyddyn, i bob cyfranogwr.

Ar hyn o bryd nid oes amcangyfrifon o faint o blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol sy'n hysbys i dimau CAMHS yng Nghymru. Ond gan ragdybio bod y ffigur o 8% o blant yn Lloegr³⁰ yr un fath yng Nghymru, gallwn amcangyfrif bod tua 52,500 o blant efallai'n hysbys i CAMHS yng Nghymru. Pe bai 2,625 (5%) o'r bobl ifanc hyn yn ymgysylltu â rhaglenni celfyddydau fel *Hwb Celfyddydol* pob blwyddyn, ac o luosi hyn â'r budd fesul person, awgrymir y gallai fod potensial i greu budd iechyd meddwl a lles blynyddol o **£9,505,125**.

Astudiaeth achos 3: Iechyd Meddwl Oedolion mewn Gofal Sylfaenol

Mae iechyd meddwl gwael mewn oedolion yn her economaidd ac iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru. Amcangyfrifir bod problemau iechyd meddwl yn costio o leiaf £4.8bn y flwyddyn i economi Cymru³¹ ac yn ôl Mind, yr elusen iechyd meddwl, mae 40% o bob apwyntiad meddyg teulu gan oedolion yn gysylltiedig ag iechyd meddwl³². Awgryma'r amcangyfrifon diweddaraf fod 19.4m o apwyntiadau meddyg teulu unigryw yng Nghymru bob blwyddyn³³. Gallai fod **7.8m o apwyntiadau meddyg teulu'r flwyddyn** felly'n gysylltiedig ag **iechyd meddwl oedolion yng Nghymru**. Amcan-ffigur yw hwn oherwydd nid yw apwyntiadau meddyg teulu'n cael eu hadrodd yn gyhoeddus yn ôl oedolion / plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Gyda data lefel poblogaeth o astudiaethau cohort yn dangos bod gan oedolion sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau bob yn ychydig fisoedd neu'n amlach 32% yn llai o risg o gael iselder³⁴, mae hyn yn amlwg yn faes addawol i ni edrych yn fwy manwl arno. Yn wir, casglodd astudiaeth gan Whiteley et al (2025), yn asesu effaith rhaglen crefftau therapiwtig ar unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yng Nghymru fod y galw am apwyntiadau meddyg teulu i lawr o 40% ar draws y cohort i rai a ymgysylltodd yn rheolaidd â'r rhaglen³⁵.

O ystyried yr amcan-nifer o 7.8m o apwyntiadau meddyg teulu sy'n cael eu cynnig yn flynyddol yng Nghymru am resymau iechyd meddwl, a chymhwyso'r galw is am apwyntiadau meddyg teulu yn ôl Whiteley et al (2025), gallai ymyriadau celfyddydol tebyg i bobl gydag iechyd meddwl ysgafn i gymedrol leihau'r galw am apwyntiadau o 3.1m y flwyddyn. Derbyniwn y byddai ehangu hyn ar y fath raddfa'n annhebygol, ond gallai osgoi dim ond **5% o'r holl apwyntiadau meddyg teulu iechyd meddwl yng Nghymru pob blwyddyn** o ymgysylltu â rhaglenni celfyddydau (388,618) greu arbedion o tua **£17,487,810 y flwyddyn**. Mae'r gost hon yn ystyried cost unedol pob apwyntiad meddyg teulu ar sail costau unedol yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU) ar gyfer 2024 (£45)³⁶.

Astudiaeth achos 4: Gweithlu GIG Cymru

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yw cyflogwr mwyaf Cymru gyda dros 112,000 o weithwyr. Mae absenoldeb salwch yn costio tua £2.4bn y flwyddyn i'r GIG drwy'r DU, ar draws ei 1.3m o weithwyr, gyda bron i 10 diwrnod o absenoldeb fesul gweithiwr y flwyddyn ar gyfartaledd³⁷. Mae hyn yn costio tua £184 am bob diwrnod a gollir gan un gweithiwr, a £1,840 am bob 10 diwrnod o absenoldeb ar gyfartaledd. Drwy gymhwyso hyn pro rata i **weithlu GIG Cymru** (112,135), mae'r amcan-gostau salwch (ar sail 10 diwrnod o absenoldeb fesul gweithiwr ar gyfartaledd) yn **£206m**.

Mae tystiolaeth o werthuso *Ysbytai Cerddorol* ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn awgrymu bod cael cerddorion byw'n chwarae mewn amrywiol leoliadau (gan gynnwys ar wardiau niwro-adsefydlu, adsefydlu strôc ac iechyd meddwl oedolion) ar draws ysbytai Castell-nedd Porth Talbot a Tonna, a helpu staff i integreiddio cerddoriaeth yn y gofal dydd-i-ddydd, wedi cael effaith lesol anferth ar gynnwrf cleifion, eu hangen am feddyginiaeth ac ymosodiadau corfforol ar staff. Roedd cyfanswm yr arbedion tybiedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe bron yn £110,000 am bob ward y flwyddyn, oherwydd roedd yr astudiaeth hefyd wedi ystyried bod angen llai o staff 1:1, meddyginiaeth, ac arbedion gofal eraill – gan ddangos buddiannau ehangach y celfyddydau creadigol i ofal iechyd a'r potensial i greu gwerth dynol ac economaidd.

Drwy gefnogi lles staff, roedd salwch ymhlith gweithwyr cymorth gofal iechyd ar y ward i lawr o **53%** a salwch nyrsys cofrestredig i lawr o **32%**, gan arwain at arbedion wythnosol posib o **£318** (gweithwyr cymorth gofal iechyd) a **£356** (nyrsys cofrestredig) mewn costau salwch. **Drwy gymhwyso hyn i ffigur blynyddol, roedd yr arbedion cost oherwydd llai o salwch staff yn £35,042 i'r bwrdd iechyd.**

Pe gallai ymyriadau tebyg gyrraedd 10% o'r holl weithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cofrestredig yn GIG Cymru, gallai hyn greu arbedion blynyddol o **£248,000** (gweithwyr cymorth gofal iechyd³⁸) a **£1,061,211** (nyrsys cofrestredig³⁹).

Yn ôl tystiolaeth o werthusiad rhaglen meddylgarwch creadigol arall wedi'i gyllido gan CCC, roedd y lleihad mewn absenoldeb staff a staff yn gadael y GIG ar ôl ymgysylltu â'r rhaglen wedi arbed **£79.10 y mis ar gyfer pob aelod o staff**. Gallai defnyddio'r amcan-gyfradd fynychu ar gyfer y rhaglen hon (33%), a'i chymhwyso i **10% o weithlu presennol y GIG**, gynhyrchu hyd at **£3,512,040** y flwyddyn drwy leihau absenoldeb staff a staff yn gadael mewn 3,700 o staff y GIG.

Trafodaeth

Am y tro cyntaf, mae'r adroddiad hwn wedi cynhyrchu amcangyfrifon newydd safadwy o'r budd economaidd a gynhyrchir gan y celfyddydau yng Nghymru i'r GIG a gofal cymdeithasol, iechyd unigolion a'r boblogaeth, ac effeithiau cymdeithasol ehangach. Mae hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth o'r celfyddydau yng Nghymru. Ar adeg pan fo adnoddau sector cyhoeddus dan bwysau mawr, gallai cyflwyno effaith ariannol y sector gynorthwyo i wneud penderfyniadau cyllido a buddsoddi yn y dyfodol er mwyn dyrannu adnoddau cyhoeddus prin yn well. O gofio bod lefel yr arian cyhoeddus fesul person i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ymhlith yr isaf yn Ewrop⁴⁰, mae'n glir y byddai buddsoddiad ychwanegol yn y celfyddydau'n cynhyrchu mwy fyth o fudd iechyd a lles ac yn helpu i leihau'r galw ar y GIG yng Nghymru.

Mae'r amcangyfrifon ariannol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tangynrychioli'r gwir effeithiau. Oherwydd yr anhawster o amcangyfrif y cysylltiadau achosol rhwng ymgysylltu neu fynychu'r celfyddydau a defnydd o adnoddau GIG a gofal cymdeithasol (gw. Atodiad Technegol), dim ond amcangyfrifon 'brig i lawr' ar gyfer oedolion hŷn gydag iselder a dementia yn ymgysylltu â lleoliadau diwylliannol, ac oedolion hŷn gyda dementia'n mynychu amgueddfeydd, oedd yn bosib. **Mae'r amcangyfrifon felly'n tangynrychioli'r effeithiau GIG a gofal cymdeithasol yn sylweddol.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth bod y celfyddydau yng Nghymru'n cynhyrchu budd sylweddol o fuddsoddiad i economi Cymru drwy wella iechyd a lles unigolion, defnyddio llai o adnoddau gofal iechyd (HCRU) ac effeithiau cynhyrchedd. Ymhellach i hyn, wrth gymhwyso amcangyfrifon i ddata penodol ar gyfer CCC, gwelsom dystiolaeth o fudd cyfartalog blynyddol cryf o fuddsoddiad i CCC.

Argymhellion ar gyfer polisi ac ymchwil i'r dyfodol

- Gallai gwneuthurwyr polisi ystyried cynyddu'r buddsoddiad mewn cefnogi gweithgareddau celfyddydau a diwylliannol o ystyried eu budd i iechyd, lles a chynhyrchedd traws-gymdeithas, y defnydd llai o adnoddau gofal iechyd (HCRU) a'r budd economaidd cysylltiedig drwy fywyd.
- Mae'r celfyddydau'n cynnig llwybr arall i wneuthurwyr polisi er mwyn gwella iechyd a lles y boblogaeth yng Nghymru, ar wahân i'r systemau iechyd a gofal traddodiadol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan fo'r systemau iechyd a gofal yng Nghymru'n wynebu pwysau galw trwm iawn.
- Dylai comisiynwyr a chyllidwyr rhaglenni celfyddydau sy'n gofyn am werthusiadau diwedd prosiect gyflwyno canllawiau ar ddulliau gwerthuso priodol i brosiectau celfyddydau er mwyn sicrhau eu bod yn casglu tystiolaeth y gellid ei defnyddio i fesur budd economaidd eu rhaglenni, ar adeg pan fo'r cystadlu am gyllid a gofyn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau mor bwysig.
 - Gwelsom o ddarllen adroddiadau gwerthuso bod gwerthuso helaeth yn cynnwys holiaduron hunan-adrodd yn aml yn cael ei osgoi er mwyn lleihau'r baich ar gyfranogwyr. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd effeithiol o holiaduron wedi eu dilysu.
 - Gall defnyddio dulliau wedi eu dilysu hwyluso creu tystiolaeth newydd, gadarn o effeithiau economaidd lefel prosiect. Bydd y dystiolaeth gadarn hon yn ei thro'n cynorthwyo gwerthusiadau lefel genedlaethol yn y dyfodol a allai dynnu casgliadau o'r dystiolaeth.
- Yn enwedig, mae angen ystyried defnyddio ymarferwyr hyfforddedig fel seicotherapyddion celfyddydau yn arferol wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn creu budd economaidd o ddefnyddio'r celfyddydau nid yn unig ar lefel boblogaeth ac i rai ag anawsterau ysgafn a / neu gymedrol, ond hefyd i rai gyda phroblemau iechyd difrifol e.e. dementia wedi gwaethygu'n ddrwg, neu broblemau iechyd meddwl difrifol.
- Dylai gwerthusiadau prosiect yn y dyfodol ystyried casglu tystiolaeth o ddylanwad prosiectau ar HCRU, lle bo'n briodol. Mae casglu hyn yn effeithiol yn cynorthwyo i greu dadleuon economaidd cryfach dros effaith y celfyddydau, ar adeg pan fo'r GIG a systemau gofal cymdeithasol yng Nghymru dan fwy o bwysau nag erioed.

- Gallai ymchwil i'r dyfodol i effaith y celfyddydau ystyried eu rôl mewn lleihau anghydraddoldeb iechyd a chyrraedd grwpiau na wasanaethir yn ddigonol. Fel gwaith Celfyddydau Anabledd Cymru sy'n creu celf sy'n rhannu'r profiad byw o anabledd, yn datblygu talentau creadigol anabl a byddar, ac yn darparu hyfforddiant ar fynediad a chynhwysiant i bobl anabl.
- Gallai ymchwil yn y dyfodol ar lefel boblogaeth ystyried pa mor ymarferol efallai fyddai defnyddio'r banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) i gasglu defnydd cyfranogwyr o HCRU drwy warws data canolog, cenedlaethol.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno tystiolaeth o effeithiau economaidd sylweddol y celfyddydau yng Nghymru a rôl Cyngor Celfyddydau Cymru mewn hwyluso'r effeithiau hyn drwy ei fuddsoddiadau. Er bod yr effeithiau a gyflwynir yn sylweddol, disgwylir i'r gwir effeithiau fod yn llawer mwy na'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Drwy gymharu'r effeithiau economaidd a gynhyrchir gan y celfyddydau yng Nghymru â thystiolaeth o ymyriadau iechyd cyhoeddus ataliol, mae tystiolaeth yr adroddiad hwn yn awgrymu y gallai buddsoddi mewn rhaglenni ac ymyriadau celfyddydau greu gwerth am arian cryf o'i gymharu â dewisiadau eraill wrth ystyried buddsoddi mewn rhaglenni hybu iechyd ac atal salwch yng Nghymru.

Cyfeiriadau

1. Welsh Government. (2025, May 22). *Priorities for Culture: integrated impact assessment An assessment on the imp.* <https://www.gov.wales/priorities-culture-integrated-impact-assessment-html>
2. Welsh Government. (2025). *Mental health and wellbeing strategy 2025 to 2035.*
3. Welsh Government. (2015, April 29). *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.*
4. Jensen, A., Holt, N., Honda, S., & Bungay, H. (2024). The impact of arts on prescription on individual health and wellbeing: a systematic review with meta-analysis. *Frontiers in Public Health*, 12. <https://doi.org/10.3389/fpubh.2024.1412306>
5. Hugh-Jones, S., Ray, S., Wilding, A., Sutton, M., Humphrey, N., & Munford, L. (2025). Does regular engagement with arts and creative activities improve adolescent mental health and wellbeing? A systematic review and assessment of causality. *SSM - Population Health*, 31, 101845. <https://doi.org/10.1016/j.ssmph.2025.101845>
6. Crealey, G., McQuade, L., O'Sullivan, R., & O'Neill, C. (2023). Arts and creativity interventions for improving health and wellbeing in older adults: a systematic literature review of economic evaluation studies. *BMC Public Health*, 23(1). <https://doi.org/10.1186/s12889-023-17369-x>
7. Karkou, V., Omylinska-Thurston, J., Thurston, S., Clark, R., Perris, E., Kaehne, A., & Pearson, M. (2024). Developing a strategy to scale up place-based arts initiatives that support mental health and wellbeing: A realist evaluation of 'Arts for the Blues.' *PLoS ONE*, 19(1 January). <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0296178>
8. Karkou, V., Sajnani, N., Orkibi, H., Groarke, J. M., Czamanski-Cohen, J., Panero, M. E., Drake, J., Jola, C., & Baker, F. A. (2022). Editorial: The Psychological and Physiological Benefits of the Arts. In *Frontiers in Psychology* (Vol. 13). <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2022.840089>
9. de Witte, M., Bradt, J., Aithal, S., Flynn, L., Karkou, V., Koch, S., Orkibi, H., Sajnani, N., Berberian, M., Fietje, N., Miranda, J., Baker, F. A., & Lampit**, A. (2025). *The Effects of Arts-Based Interventions in the Treatment and Management of Non-Communicable Diseases: An Umbrella Review and Meta-Analyses.* <https://doi.org/10.21203/rs.3.rs-5961850/v1>
10. Fancourt, D., & Finn, S. (2019). What is the evidence on the role of the arts in improving health and well-being? A scoping review. In *WHO Regional Office for Europe* (Vol. 2, Issue 1). <https://doi.org/10.18261/issn.2535-7913-2020-01-08>
11. National Centre for Creative Health. (n.d.). *Health Inequalities Roundtable.* Retrieved November 19, 2025, from <https://ncch.org.uk/blog/health-inequalities-roundtable>

12. Frontier Economics. (2024). *Culture and Heritage Capital: Monetising the Impact of Culture and Heritage on Health and Wellbeing, A report prepared for the Department for Culture, Media and Sport*.
13. Welsh Government. (2021). *Term of Government Remit Letter for Arts Council of Wales*. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-10/arts-council-of-wales-remit-letter-2021-to-2026.pdf>
14. World Health Organization. (2025). *Arts and health*. <https://www.who.int/initiatives/arts-and-health>
15. Arts Council of Wales. (2018). *Arts and Health in Wales A Mapping study of current activity*.
16. Arts Council of Wales. (2024). *Our Strategy 2024-20234*.
17. HM Treasury. (2022). The Green Book (2022). *Crown Copyright*.
18. National Institute for Health and Care Excellence. (2022). NICE health technology evaluations: the manual. Process and methods [PMG36]. In *National Institute for Health and Care Excellence* (Issue January).
19. Fujiwara, D. (2021). *Incorporating Life Satisfaction in to Discrete Choice Experiments to Estimate Wellbeing Values for Non-Market Goods*.
20. StatsWales. (2024, July). *Population estimates by local authority and age*. <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age>
21. Edwards, R. T., & Lawrence, C. L. (2024). *Health Economics of Well-being and Well-becoming across the Life-course* (R. T. Edwards & C. L. Lawrence, Eds.). Oxford University PressOxford. <https://doi.org/10.1093/9780191919336.001.0001>
22. Masters, R., Anwar, E., Collins, B., Cookson, R., & Capewell, S. (2017). Return on investment of public health interventions: A systematic review. In *Journal of Epidemiology and Community Health* (Vol. 71, Issue 8). <https://doi.org/10.1136/jech-2016-208141>
23. Office for Health Improvement & Disparities. (2022, February 25). *Falls: applying All Our Health*. <https://www.gov.uk/government/publications/falls-applying-all-our-health/falls-applying-all-our-health>
24. D'Arcy, E. (2023). *Quality Priority - Falls Prevention*. <https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/quality-and-safety-committee-papers/quality-and-safety-committee-may-2023/3-2-falls-prevention-pdf/>
25. National Institute for Health and Care Excellence. (2013). *Falls Assessment and prevention of falls in older people*.

26. Sport Industry Research Centre. (2020). *Dance to Health "Phase 1 roll-out [test and learn]" evaluation Final report*. <https://ae-sop.org/wp-content/uploads/sites/63/2020/06/DANCE-TO-HEALTH-evaluation-by-SHU-SIRC-final-report-May-2020.pdf>
27. NHS Digital. (2023, November 21). *Mental Health of Children and Young People in England, 2023 - wave 4 follow up to the 2017 survey*. <https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/mental-health-of-children-and-young-people-in-england/2023-wave-4-follow-up>
28. Davies, G. (2024). *Arts Boost Year Two Evaluation Report*. <https://tritech.nhs.wales/wp-content/uploads/2024/05/KL-DRAFT-final-report-Arts-Boost-Year-2-FINAL-2.pdf>
29. Granger, R., Hartfiel, N., Ezeofor, V., Abba, K., Corcoran, R., Anderson de Cuevas, R., Barr, B., Gebremedhin Gebremariam, A., Piroddi, R., Mahoney, C., Gabbay, M., & Edwards, R. T. (2025). Social Return on Investment (SROI) Evaluation of Citizens Advice on Prescription: A Whole-Systems Approach to Mitigating Poverty and Improving Wellbeing. *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 22(2), 301. <https://doi.org/10.3390/ijerph22020301>
30. Children's Commissioner. (2024, March 15). *Press Notice: Over a quarter of a million children still waiting for mental health support, Children's Commissioner warns*. <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/news-and-blogs/over-a-quarter-of-a-million-children-still-waiting-for-mental-health-support/>
31. Mcdaid, D., Park, A.-L., Davidson, G., John, A., Knifton, L., Morton, A., & Thorpe, L. (2022). The economic case for investing in the prevention of mental health conditions in the UK. *Mental Health Foundation, February*.
